

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Elizabeth Jones (Llansannan) yn yr Inffirmari. Mae Kitty Parry (Llanefydd) wedi mynd am gyfnod i Dolwen – parhawn i gofio amdani hithau. Bu i Nia Williams (Llansannan) dreulio noson yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn llawdriniaeth yr wythnos ddiwethaf, ac mae eraill hefyd o'r Ofalaeth sydd wedi derbyn llawdriniaeth neu wedi cael anffawd yn ddiweddar ond na fu rhaid iddynt aros yn yr ysbyty dros nos. Anfonwn ein cofion at bob un ohonynt a dymunwn wellhad buan iawn iddynt.

Galw Gweinidog

Fe wyddoch eisoes fod Aneurin yn bwriadu ymddeol ddiwedd mis Awst eleni. Yn unol â rheolau'r Cyfundeb, derbyniwyd caniatâd i ddechrau ar y broses o alw Gweinidog mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth a gynhaliwyd heno (nos lau). Y cam nesaf yw cynnal pleidlais gyhoeddus ymhob eglwys i ofyn ydych chi'n bleidiol i alw gweinidog. Cafwyd caniatâd hefyd i gynnal pleidlais ddirgel ar yr un Sul i ethol rhai o blith yr aelodau i gydweithio gyda'r blaenoriaid ar y Pwyllgor Bugeiliol. Yn naturiol, petai'r bleidlais gyntaf yn dangos nad ydym yn awyddus i alw gweinidog, neu bod Y Gymdeithasfa fydd yn cyfarfod ar Ebrill 12fed-13eg yn gwrthod rhoi y caniatâd terfynol inni symud ymlaen, ni fydd y Pwyllgor Bugeiliol yn dod yn weithredol. Ond nid ydym am i'r broses ein rhwystro rhag symud ymlaen mor fuan ag sydd bosibl, felly, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i ddau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth ymweld â'r eglwysi fel a ganlyn i arolygu y ddwy bleidlais:

- Ebrill 3ydd am 10.00 Llansannan/Hiraethog, Llanfair Talhaiarn, Llanefydd a Pheniel
- Ebrill 3ydd am 2.00 Tanyfron, Cefn Meiriadog, Cefn Berain a Henllan
- Ebrill 10fed am 10.00 Saron
- Ebrill 10fed am 2.00 Nantglyn a Groes

Derbyniwch y neges hon felly, os gwelwch yn dda, fel rhybudd y bydd angen i chi, ar y dyddiadau uchod, bleidleisio a ydych o blaid galw Gweinidog i fugeilio eglwysi'r Ofalaeth, a phleidleisio hefyd i ddewis un aelod (nad yw yn flaenor/diacon) i gynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol (os, neu pryd y bydd hwnnw yn dod yn weithredol).

I ddod

- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 24:1-12 (BCND tud.97 / BCN tud.89)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20^{fed} Mawrth 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 53: 6-9

(BCND tud.670 / BCN tud.611)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon Sul y Palmwydd pryd y byddwn yn cofio am Iesu yn marchogaeth i mewn i Jerwsalem. Cafodd ei gyfarch gan dorf yn gweiddi 'Hosanna!' ond gwyddai y byddai llef y dorf yn newid yn fuan iawn. Mae Iesu yn rheoli'r digwyddiadau i gyd ac yn dangos mai Ef ydi'r Arglwydd, er ei fod yn dod mewn tlodi a gostyngeddwrwydd ac i'w groeshoelio. Cyflawni popeth sydd wedi cael ei broffwydo amdano mae Iesu, a hynny er ein mwyn ni ac yn ein lle. Gweddiwn am gael gweld yn ein hoedfaon heddiw beth o ryfeddod 'uchelderau mawr ei Dduwdod, a dyfnderoedd ei ufudd-dod'.

Mae'r Henaduriaeth wedi cyfarfod, fel y gwelwch o'r cyhoeddiadau, ac wrthi'n trefnu cymryd llais yr eglwysi trwy ofyn a ydym o blaid galw gweinidog newydd. Bydd hyn yn digwydd trwy gynnal pleidlais yn y capeli ar y dyddiau a nodir. Rwy'n apelio arnoch felly i bresenoli eich hunain, os medrwch, yn yr oedfa sy'n berthnasol i chi er mwyn i ni gael pleidlais a fydd mor gynhwysol â phosibl. Fe fydd y broses yn cynnwys gofyn am ganiatâd y Gymdeithasfa hefyd sy'n cyfarfod ar y 12fed a'r 13eg o Ebrill ac felly mae'r amserlen yn dynn. Diolchwn i'r Arglwydd am ei eglwys ac am weinidogaeth y Gair a'r Sacramentau yn ein Bro ar hyd y canrifoedd a diolchwn fod cyfle rwan i bob aelod gael rhan weddigar yn nyfodol y weinidogaeth hon yn ein hoes ni.

Mae yna berthynas uniongyrchol rhwng digwyddiadau'r Pasg a gwaith Duw yn galw ei Eglwys. Oni bai i Iesu farw trosom ar Galfaria ac atgyfodi'r trydydd dydd ni fyddai nac eglwys na chenhadaeth yn y byd. Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi, ac Ef sy'n galw pobl i'w ddilyn ym mhob cenedlaeth ac ym mhob gwlad. Ar sylfaen ei fuddugoliaeth dros angau y mae'r eglwys yn cael ei galw i fodolaeth ac i wasanaethu Crist yn y byd. Gan fod buddugoliaeth Crist yn sicr, medrwn fod yn hyderus yn nyfodol Eglwys Crist er fod y strwythurau enwadol yn gwegian i bob golwg yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Gŵyl Llanw ar y gorwel hefyd a dyma gyfle i ni gydaddoli a chydweiddio am weld mwy o ffrwyth o lafur enaid yr Arglwydd yng Nghymru. Gweddiwn yn daer i'r Arglwydd ddefnyddio ei Air bywiol yn nerthol yn ein plith ac am lwyddiant ei Eglwys y mae gennym y fraint fawr, trwy ras Duw, o fod yn rhan o'i dyfodol yma ym Mro Aled.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 20^{fed}

- **Cymdeithas y Beibl** – Y cyfle olaf i weld Beibl gwreiddiol Mary Jones yng Nghanolfan Byd Mary Jones o 10.00-12.00.
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Aneurin yn pregethu.

Mercher – 23^{ain}

- **Cyfarfod Chwirydd Bro Aled** yng Nghapel Henllan am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.

Iau – 24^{ain}

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.

Gwener – 25^{ain}

- **Oedfa Bore'r Groglith i'r Fro** – Oedfa gymun yng Nghapel y Groes am 10.30.

Sul nesaf – 27^{ain}

- **Y Pasg ar Moel Fodiar** – Os bydd y tywydd yn caniatáu, bwriedir cynnal oedfa awyr agored **am 2.00** pryd byddwn yn cofio rhai o ddigwyddiadau'r Pasg mewn gwahanol safleoedd ar Moel Fodiar, sydd rhwng Cefn Berain a Brynrhydrarian. (Bydd cerbydau wedi eu trefnu i gludo'r rhai na allant gerdded i ben y mynydd.) Byddai'n fantais os medrwch gyd-deithio ond diolchwn i Geraint Roberts am roi caniatâd inni barcio'r ceir ym muarth Groesffordd sydd ger hen gapel Gwynfa (ar y B5382 rhwng Henllan a Llansannan). Bydd gwaith cerdded o tua 10-15 munud i'r fan ble byddwn yn cychwyn, a cherbydau i gludo'r rhai na allant gerdded yn bell. Os na fydd y tywydd yn ffafriol, bydd Oedfa i'r Fro yn cael ei chynnal yn Llansannan am 2.00 gyda Dafydd Timothy yn arwain a Rhodri Glyn yn pregethu. *Edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth (eglwysibroaled.com), neu cysylltwch â Mair (01745 870632 / 07900 627536) os bydd amheuaeth o ran y tywydd.*

Saron a Pheniel

Sul yma – 20^{fed}

Bydd oedfa arbennig i'r daith ar thema'r Pasg ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 27^{ain}

Cynhelir oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 (*sylwch ar y newid amser*) pryd y bydd yr eglwys yn derbyn Jac Davies yn aelod cyflawn ac yn croesawu y bobl ifanc eraill ddaeth yn aelodau cyflawn o'r eglwys yn ystod y flwyddyn. Bydd yr Ysgol Sul yn cyd-redeg. Yna, am 2.00 bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 20^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf – 27^{ain}

Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ond ni fydd Ysgol Sul yn Llanfair heddiw. Bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Llansannan

Sul yma – 20^{fed}

Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydregdeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Sul nesaf – 27^{ain}

Bydd Dr Rhodri Glyn yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Yna, am 2.00 bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 20^{fed}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf – 27^{ain}

Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw ond bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 20^{fed}

Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Sul nesaf – 27^{ain}

Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 (*sylwch ar y newid*). Ni fydd oedfa yn Groes heddiw ond bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 20^{fed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Gwener – 25^{ain}

Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghapel Cefn Berain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Christopher Prew.

Sul nesaf – 27^{ain}

Bydd Gwasanaeth Teuluol wedi ei drefnu yng Nghefn Berain am 10.00. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth y Pasg am 10.00 gan blant yr Ysgol Sul ac yng nghwmni Gwion a Sarah Dafydd, a Gwasanaeth Pasg yr ieuencid hefo Gwion a Sarah Dafydd am 6.00. Bydd cyfle i bawb ymuno â'r Fro i ddathlu'r Pasg ar Moel Fodiar am 2.00.